| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Rhyddid Gwybodaeth a Chynllun Cyhoeddi<br>Freedom of Information Policy and Publication Scheme |
| **Dyddiad Cyhoeddi:**<br>**Issue Date:** | 03/ 2014 |
| **Poisi ar gyfer:**<br>**Policy for:** | Pawb yn y Coleg a'r Cyhoedd<br>Everyone at the College and the Public |

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality and Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | Impact Assessment |
| Effaith ar yr Iaith Gymraeg<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. | Welsh Language Impact<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure2011. |

## Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval:

| | | |
|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | Swyddog Llywodraethu a Chlerc<br>Governance Officer and the Clerk | |
| **Ymgynghoriad /**<br>**Consultation:** | Archwilwyr Mewnol - Wylie & Bisset<br>Internal Auditors - Wylie & Bisset | |
| **Dyddiad Cymeradwyo:**<br>**Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | n/a |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | n/a |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | |
| | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | 28/11/22 |
| | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | n/a |
| | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | n/a |
| | | |
| | Bwrdd Llywodraethol / Governing Body | 13/12/2022 |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | Rhagfyr 2023<br>December 2023 | |

## CYNNWYS


| Cyfeirnod | Manylion | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 2 |
| 2 | Cwmpas y Cynllun | 2 |
| 3 | Categorïau Gwybodaeth | 2 |
| 4 | Eithriadau ac Eithriadau Absoliwt dan y Ddeddf | 2 |
| 5 | Gwybodaeth ar Gael a Golygu Gwybodaeth | 3 |
| 6 | Ffioedd | 3 |
| 7 | Ceisiadau am Wybodaeth | 3 |
| 8 | Adborth | 3 |
| 9 | Apelio yn Erbyn y Penderfyniad | 4 |
| 10 | Polisïau Eraill y Coleg | 5 |
| | ATODIAD 1 – Eithriadau | 6 |
| | ATODIAD 2 – Cynllun Cyhoeddi | |

1 **Cyflwyniad**

1.1 Mae'n ofynnol i Goleg Cambria, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, fabwysiadu a chynnal cynllun cyhoeddi sy'n nodi'r wybodaeth y bwriada'r Coleg ei chyhoeddi'n rhagweithiol fel rhan o'r drefn arferol. Pwrpas cynllun cyhoeddi yw hybu awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys colegau, i fod yn fwy agored.

1.2 Mae'r cynllun cyhoeddi hwn yn ymrwymo Coleg Cambria i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'i weithgareddau busnes arferol. Nodir yr wybodaeth berthnasol yn y categorïau gwybodaeth a grybwyllir isod, lle bo'r wybodaeth hon ym meddiant y Coleg.

1.3 Mae Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018 (GDPR) yn ei gwneud yn ofynnol bod y Coleg dan ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu data personol fel bo'r angen. Bydd y Coleg yn ystyried ei gyfrifoldebau yn ofalus o dan y GDPR cyn datgelu data personol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am unigolion sy'n fyw, gan gynnwys aelodau presennol a chyn aelodau staff, llywodraethwyr a myfyrwyr.

1.4 Darperir cymorth ychwanegol i ddiffinio'r categorïau hyn mewn llawlyfrau canllaw ar gyfer sectorau penodol a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

2 **Cwmpas y Cynllun**

Mae'r cynllun hwn yn ymrwymo'r Coleg i:

(a) Cyhoeddi neu sicrhau ei bod ar gael fel arall yn arferol wybodaeth a gedwir gan y Coleg ac sy'n perthyn i'r categorïau isod (gweler paragraff 3).
(b) Nodi'r wybodaeth a gedwir gan y Coleg ac sy'n perthyn i'r categorïau isod.
(c) Cyhoeddi'n rhagweithiol neu sicrhau ei bod ar gael fel arall yn arferol wybodaeth yn unol â'r datganiadau a gynhwysir yn y cynllun hwn.
(ch) Cynhyrchu a chyhoeddi'r dulliau ar gyfer gwneud gwybodaeth benodol ar gael yn arferol fel ei bod yn hawdd ei hadnabod a'i gweld gan y cyhoedd.
(d) Adolygu a diweddaru'n rheolaidd yr wybodaeth mae'r Coleg yn ei gwneud ar gael o dan y cynllun hwn.
(dd) Cynhyrchu rhestr o unrhyw ffioedd a godir am gael gweld gwybodaeth sydd ar gael yn rhagweithiol.
(e) Sicrhau bod y cynllun cyhoeddi hwn ar gael i'r cyhoedd.

**3 Categorïau Gwybodaeth**

3.1 <u>Pwy ydym ni a'r hyn rydym yn ei wneud.</u> Gwybodaeth am y sefydliad, lleoliadau, cysylltiadau, y cyfansoddiad a llywodraethu cyfreithiol.

3.2 <u>Yr hyn rydym yn ei wario a sut rydym ni'n ei wario.</u> Gwybodaeth ariannol yn ymwneud â rhagfynegiadau a gwir incwm a gwariant, tendro, caffael a chontractau.

3.3 <u>Ein blaenoriaethau a sut rydym yn eu cyflawni.</u> Gwybodaeth am strategaethau a pherfformiad, cynlluniau, asesiadau, arolygiadau ac adolygiadau.

3.4 <u>Sut rydym yn gwneud penderfyniadau.</u> Cynigion polisi a phenderfyniadau. Y prosesau gwneud penderfyniadau, meini prawf a gweithdrefnau mewnol, ymgynghoriadau.

3.5 <u>Ein polisïau a'n gweithdrefnau.</u> Protocolau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer darparu ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau.

3.6 <u>Rhestri a chofrestri.</u> Gwybodaeth sy'n cael ei chadw mewn cofrestri sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a chofrestri'n ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod.

3.7 <u>Y gwasanaethau rydym yn eu cynnig.</u> Cyngor ac arweiniad, llyfrynnau a thaflenni, trafodion a datganiadau i'r cyfryngau. Disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigir.

**4 Eithriadau ac Eithriadau Absoliwt dan y Ddeddf**

4.1 Rhestrir eithriadau ac eithriadau absoliwt lle bo'r prawf budd y cyhoedd yn berthnasol yn <u>Atodiad 1.</u>

4.2 Yn gyffredinol ni fydd y categori gwybodaeth hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth yr atelir ei datgelu gan y gyfraith, neu sydd wedi ei heithrio dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu sy'n cael ei hystyried fel gwybodaeth a amddiffynnir yn briodol rhag cael ei datgelu.
- Gwybodaeth ar ffurf ddrafft.
- Gwybodaeth nad yw'n hawdd ei chael mwyach, gan ei bod wedi ei chynnwys mewn ffeiliau wedi eu storio yn yr archifau, neu sy'n anodd cael gafael arni am resymau tebyg.

## 5 Dulliau y bydd gwybodaeth a gyhoeddir dan y cynllun hwn ar gael a'r Amserlen ar gyfer Delio â Cheisiadau;

5.1 Bydd y Coleg yn nodi'n glir wrth y cyhoedd pa wybodaeth sy'n cael ei chynnwys gan y cynllun hwn a sut i gael y wybodaeth honno.

5.2 Os yw'r coleg yn gallu gwneud hynny, bydd gwybodaeth ar gael ar wefan. Lle nad yw'n ymarferol i'r wybodaeth fod ar gael ar wefan, neu pan nad yw unigolyn yn dymuno cael y wybodaeth drwy'r wefan, bydd y Coleg yn nodi sut y gellir cael yr wybodaeth drwy ddulliau eraill ac yn ei darparu drwy'r dulliau hynny.

5.3 Mewn amgylchiadau eithriadol gall peth gwybodaeth fod ar gael i'w gweld yn bersonol yn unig. Lle nodir y dull hwn, darperir y manylion cysylltu. Trefnir apwyntiad i weld yr wybodaeth o fewn cyfnod rhesymol.

5.4 Darperir gwybodaeth yn yr iaith y'i cedwir neu mewn iaith arall sy'n ofynnol yn gyfreithiol. Lle bo'n ofynnol yn gyfreithiol i goleg gyfieithu unrhyw wybodaeth, bydd yn gwneud hynny.

5.5 Cedwir at ymrwymiadau dan ddeddfwriaeth anabledd a gwahaniaethu ac unrhyw ddeddfwriaeth arall i ddarparu gwybodaeth mewn ffurfiau a fformatau eraill wrth ddarparu gwybodaeth yn unol â'r cynllun hwn.

5.6 Lle bynnag y bo modd, ymdrinnir â cheisiadau o fewn amserlen o 20 diwrnod gwaith. Fodd bynnag, lle nad yw'n bosibl neu pan fydd y Coleg yn annhebygol o fodloni'r ffrâm amser o 20 diwrnod gwaith (ee oherwydd cymhlethdod y cais / data sydd i'w gasglu) cysylltir â'r cwsmer yn brydlon a deuir i gytundeb ar ddyddiad diwygiedig ar gyfer cyflwyno gwybodaeth. (Gweler hefyd Paragraff 6.3 isod).

5.7 Dal gwybodaeth yn ôl yw'r broses lle mae gwybodaeth yn cael ei gwneud yn annarllenadwy neu'n anhygyrch mewn dogfen. Gall hyn gynnwys cuddio/dileu geiriau, brawddegau neu flociau cyfan o destun / delweddau allan. Wrth wneud penderfyniad i ddal gwybodaeth yn ôl, bydd y Coleg yn ystyried y posibilrwydd o ddarparu copïau o ddogfennau sydd wedi'u golygu. Bydd rheolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth yn gweithio gyda'r Swyddog Llywodraethu a'r Is-Bennaeth i nodi a yw golygu yn ffordd addas o weithredu. Delir gwybodaeth yn ôl ond pan ellir cymhwyso eithriad i wybodaeth benodol sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen. Bydd ymateb y Coleg yn nodi pa eithriad sydd wedi'i gymhwyso i bob adran sydd wedi'i golygu a lle bo angen, sut mae'r Prawf Budd Cyhoeddus wedi'i gymhwyso. Gall y broses hefyd alluogi rhyddhau gwybodaeth yn rhannol. Fodd bynnag, os bydd y broses yn arwain at golli synnwyr cyffredinol y ddogfen, neu os bydd y ddogfen yn dod yn anodd ei darllen, yna gall y Coleg benderfynu y bydd y wybodaeth yn cael ei dal yn ôl yn llawn o dan yr eithriad perthnasol.

5.7 Sylwch pan fydd angen treulio amser ac adnoddau sylweddol ar y gwaith o leoli a pharatoi y wybodaeth, gan arwain at gostau dros £450 gall y Coleg benderfynu gwrthod y cais. Os gwrthodir cais ar sail cost, bydd y Swyddog Llywodraethu a'r Clerc yn cysylltu â'r sawl sy'n gofyn amdano ac yn eu hysbysu. Bydd y sawl sy'n gofyn amdano yn cael cynnig cyngor ar newid cwmpas y cais i leihau'r gost. Pan ofynnir am ffi, bydd y 'cloc' 20 diwrnod gwaith yn cael ei oedi hyd nes y cadarnheir bod yr ymgeisydd yn barod i dalu'r ffi a derbyn y taliad.

## 6 Ffioedd

6.1 Pwrpas y cynllun hwn yw gwneud cymaint o wybodaeth ag y bo modd ar gael yn rhwydd heb anghyfleustra i'r cyhoedd ac ar isafswm cost. Bydd ffioedd a godir gan y Coleg am

ddeunyddiau a gyhoeddir yn arferol yn cael eu cyfiawnhau ac yn dryloyw ac yn cael eu cadw i'r isafswm.

6.2 Darperir deunydd a gyhoeddir ac a gyrchir drwy wefan/mewnrwyd am ddim.

6.3 Gellir codi ffi am wir gostau darparu gwybodaeth fel:

- llungopïo
- postio a phecynnu
- costau uniongyrchol o ganlyniad i edrych ar yr wybodaeth

6.4 Darperir dogfennau na chawsant eu cyhoeddi ar wefan/mewnrwyd y Coleg lle bo'n ofynnol cynnal chwiliad (fformat electronig) am £10 y ddogfen.

6.5 Darperir dogfennau na chawsant eu cyhoeddi ar wefan/mewnrwyd y Coleg lle bo'n ofynnol cynnal chwiliad (fformat argraffedig) am £10 y ddogfen, ynghyd â chostau llungopïo (gweler 6.3 uchod).

6.6 Os bydd rhaid talu ffi, byddwn yn cadarnhau'r taliad a fydd yn ddyledus cyn darparu'r wybodaeth. Gallwn ofyn am daliad cyn darparu'r wybodaeth.

6.7 Sylwer: Mae Adran 12 Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn darparu eithriad o ymrwymiad awdurdod cyhoeddus i gydymffurfio â chais am wybodaeth lle'r amcangyfrifir fod cost cydymffurfio yn uwch na £450. Os yw'r eithriad hwn yn berthnasol bydd bodolaeth yr wybodaeth yn cael ei chadarnhau neu ei gwadu, oni bai bod cost gwneud hynny yn uwch na'r terfyn.

## 7 Ceisiadau am wybodaeth

Gellir gwneud cais ysgrifenedig am wybodaeth a gedwir gan y Coleg, nad yw'n cael ei chyhoeddi dan y cynllun hwn. Byddwn yn ystyried darparu'r wybodaeth honno yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Cysylltwch â:

Sian Clark, Swyddog Llywodraethu a Chlerc i'r Corff Llywodraethu,
Coleg Cambria, Safle Iâl, Ffordd Parc y Gelli, Wrecsam LL12 7AB
Rhif Ffôn: 07514 803272
E-bost: sian.clark@cambira.ac.uk

## 8 Adborth

8.1 Mae'n bwysig fod y cynllun cyhoeddi hwn yn ateb eich anghenion. Os yw'r cynllun yn anodd ei ddeall, gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda. Rydym ni'n croesawu awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella ein cynllun hefyd.

8.2 Dylid anfon unrhyw gwestiynau neu sylwadau am y cynllun hwn yn ysgrifenedig at Bethan Lloyd-Jones, Swyddog Llywodraeth a Chlerc y Corff Llywodraethu (mae'r manylion cysylltu ym mharagraff 7).

8.3 Os oes gennych chi gwyn am y modd y cafodd eich cais ei brosesu neu ei drin, ymdrinnir â hyn drwy Drefn Gwyno'r Coleg. Anfonwch eich cwyn i:

Cath Sullivan, Dirprwy Brif Weithredwr Profiadau Pobl a Diwylliant
Coleg Cambria, Ffordd Kelsterton, Cei Connah, Glannau Dyfrdwy CH5 4BR
Rhif Ffôn: 01978 267488

Byddwn fel arfer yn cydnabod derbyn eich cwyn cyn pen pum niwrnod gwaith.

## 9. Apelio yn erbyn y penderfyniad

9.1 Rhaid anfon eich cais ysgrifenedig am adolygiad mewnol o benderfyniad y Coleg (mae neges e-bost yn ddigonol at y diben hwn) at Glerc y Corff Llywodraethu, fel y nodwyd uchod. Dylid anfon apêl cyn pen 40 niwrnod gwaith i'r ymateb i'ch cais gwreiddiol.

9.2 Rhaid darparu'r manylion llawn am gefndir eich apêl e.e. yr hyn rydych yn apelio yn ei erbyn, gan nodi rhesymau penodol pam eich bod yn anfodlon gydag unrhyw ran o ymateb y Coleg.

9.3 Unwaith y byddwn wedi cwblhau’r adolygiad byddwch yn derbyn ymateb a fydd yn rhoi gwybod i chi am y canlyniad ac unrhyw gamau gweithredu dilynol y byddwn yn eu gweithredu i unioni materion, fel y bo’n briodol.

9.4 Yn arferol darperir cydnabyddiaeth yn cadarnhau derbyn eich apêl cyn pen pum niwrnod gwaith.

9.5 Ond os nad ydym yn gallu datrys eich apêl, mae gennych chi hawl i gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y corff annibynnol sy’n goruchwylio’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
CAERDYDD CF10 2HH
Rhif Ffôn: 0330 414 6421
Fax: 0292 067 8399
E-bost: wales@ico.org.uk

**10. Polisïau Eraill y Coleg**

I gael copi o’r polisïau canlynol, cysylltwch â’r Swyddog Llywodraethu a Chlerc i’r Corff Llywodraethu, (mae’r manylion cysylltu â hi ym mharagraff 7):

- Cwynion
- Diogelu Data
- Chwythu’r Chwiban
- Polisi /Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Dysgwyr, Cyflogwyr a Diogelu Llywodraethwyr

**ATODIAD 1**

A. Eithriadau lle bo prawf budd y cyhoedd yn berthnasol:

A22 Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol
A24 Diogelwch cenedlaethol
A26 Amddiffyn
A27 Cysylltiadau rhyngwladol
A28 Cysylltiadau yn y Deyrnas Unedig
A29 Yr economi
A30 Ymchwiliadau a gweithrediadau a gynhelir gan awdurdodau cyhoeddus
A31 Gorfodi'r gyfraith
A33 Swyddogaethau archwilio
A35 Llunio polisi'r llywodraeth, ac ati
A36 Rhagfarnu cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol (ac eithrio gwybodaeth a gedwir gan Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi)
A37 Cyfathrebiadau ag Ei Mawrhydi, ac ati ac anrhydeddau
A38 Iechyd a diogelwch
A39 Gwybodaeth amgylcheddol
A40 Gwybodaeth bersonol (Dim ond os yw'r wybodaeth yn ymwneud â thrydydd parti a bod hysbysiad Adran 10 dan Ddeddf Diogelu Data 1998 yn berthnasol i'r wybodaeth honno)
A42 Braint broffesiynol gyfreithiol
A43 Buddiannau masnachol

B. Yr eithriadau absoliwt

Os yw'r eithriadau hyn yn berthnasol, nid oes angen i ystyried ymhellach a yw datgelu'r wybodaeth er budd y cyhoedd.

A21 Gwybodaeth sydd ar gael i ymgeiswyr drwy ddulliau eraill
A23 Gwybodaeth a ddarparwyd gan, neu'n ymwneud â chyrff sy'n ymdrin â diogeledd
A32 Cofnodion llys, ac ati
A34 Materion seneddol
A36 Rhagfarnu cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol (yn berthnasol i wybodaeth a gedwir gan Dŷ'r cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn unig)
A40 Gwybodaeth bersonol (lle bo'r ymgeisydd yn destun yr wybodaeth)
A41 Gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol
A44 Gwaharddiadau datgelu, lle gwaharddwyd datgelu gwybodaeth drwy ddeddfiad neu a fyddai'n Ddirmyg llys